

## CYNGOR DINAS CASNEWYDD

### Hysbysiad Statudol - Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Sarah Morgan,  
Prif Swyddog Addysg  
Cyngor Dinas Casnewydd,  
Canolfan Ddinesig  
Casnewydd,  
NP20 4UR



**NEWPORT**  
CITY COUNCIL  
CYNGOR DINAS  
**CASNEWYDD**

Hysbysir trwy hyn, yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Dinas Casnewydd, wedi ymgynghori â'r personau perthnasol, yn bwriadu addasu Ysgol Uwchradd Llan-wern, Hartridge Farm Road, Casnewydd NP18 2YE i sefydlu canolfan arbenigol â 20 lle ar gyfer disgyblion sydd ag Anhwylder ar y Sbectwm Awtistig. Mae'r ysgol hon yn ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd. Cynigir y bydd y ganolfan newydd yn derbyn 4 disgybl i Flwyddyn 7 yn y flwyddyn gyntaf ac ym mhob un o'r 4 blynedd ddilynol, gan ddarparu 20 lle arbenigol ar draws Blynyddoedd 7-11.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd a safbwyntiau Estyn ar gael yn <https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/Llanwern-High-ASD-base-consultation.aspx>

Y bwriad yw gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2023.

Bydd sefydlu'r ganolfan ADY yn cefnogi'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ASA ledled Casnewydd drwy ddull cynhwysol er mwyn gallu addysgu hyd at 20 o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn amgylchedd ysgol prif ffrwd. Bydd derbyniadau i'r ddarpariaeth hon yn seiliedig ar asesiad o anghenion fel a bennir gan y Prif Swyddog Addysg.

Mae gan y Cyngor bolisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol sy'n cynnig trafndiaeth am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar y ddarpariaeth hon. Mae mwy o wybodaeth yn ymwneud â'r polisi hwn ar gael ar wefan y Cyngor.

#### Cyfnod Gwrthwynebu

O fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 5 Mai 2023, caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion yn ysgrifenedig neu dros e-bost.

Dylid anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Gyngor Dinas Casnewydd, at sylw'r Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg, Ystafell 425w, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR. Dylid anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost i [school.reorg@newport.gov.uk](mailto:school.reorg@newport.gov.uk).

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau ar y gwrthwynebiadau hynny, pan roddir gwybod i randdeiliaid am benderfyniad y cynnig.

Llofnod:

Prif Swyddog Addysg  
Ar ran Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR  
Dyddiad: 30 Mawrth 2023